



Polisi Cyhoeddiadau Mynediad Agored

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Polisi Grŵp ar Gyhoeddiadau Mynediad
Agored

CYNNWYS

1. Cyflwyniad	2
2. Pwrpas	2
3. Cwmpas	2
4. Polisi	5
Math A: Llwybrau Mynediad Agored ac Amodau (Gwyrdd ac Aur)	5
Math B: Hawlfraint a Thrwyddedu	6
5. Monitro	7
6. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill:	10
7. Goblygiadau o ran Adnoddau	10
8. Asesiad Effaith	11
9. Rheoli fersiynau'r ddogfen	12
Atodiad 1 Gofynion polisi cyrff cyllido	13
Atodiad 2. Paneli REF 2014	17

1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cydnabod bod yr egwyddor o fynediad agored at ymchwil yn caniatáu i ymchwil fod yn fwy gweladwy, yn ysgogi cyfleoedd ymchwil newydd ac yn arwain at gynyddu effaith yr ymchwil. Mae gwneud cynhyrchion ymchwil yn rhai "Mynediad Agored" bellach yn bolisi allweddol i brif gyllidwyr ymchwil ac mae'n arfer cyffredin ar draws sector ymchwil prifysgolion. Mae hyn yn cydnabod bod ymchwil a ariennir yn gyhoeddus yn eiddo i'r cyhoedd ac y dylai fod ar gael yn agored lle bo hynny'n briodol yn gyfreithiol, yn fasnachol ac yn foesebol. Mae'r Polisi hwn wedi'i lunio felly i feithrin arferion eang a chynhwysol o ran cyhoeddi mynediad agored ar draws y Brifysgol ac i alluogi ei hymchwilyr i gydymffurfio â gofynion cyrff cyhoeddus ar sicrhau mynediad agored i gynhyrchion ymchwil.

2. Pwrpas

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod trosglwyddo i fynediad agored yn galw am newid diwylliant sylweddol ac mae'n disgwyl y gwelir cynnydd o ran cydymffurfio â'r Polisi hwn mewn perthynas â phapurau ymchwil dros gyfnod trosiannol o ddyddiad ei weithredu tan Ebrill 2016. Yr eithriad i hyn yw cynhyrchion ymchwil a ariennir trwy ymchwil a wneir gyda chefnogaeth grantiau Cyngor Ymchwil y DU a'r Wellcome Trust. Rhaid cyhoeddi'r rhain ar sail mynediad agored adeg eu derbyn. Mae'r Brifysgol wedi dewis y Llwybr Gwyrdd i Fynediad Agored trwy'r gadwrfa sefydliadol fel ei llwybr safonol ar gyfer rhannu ymchwil yn rhydd ac yn agored. Mae gofynion ei chymuned ymchwil wrth gyflawni hyn wedi'u nodi yn y polisi hwn.

3. Cwmpas

Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Cadwrfa Gyhoeddi Mynediad Agored canolog a gedwir gan y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu. Yn seiliedig ar y system ePrints, mae'r gadwrfa'n darparu sylfaen i arddangos a dosbarthu ystod lawn yr ymchwil a gynhyrchir gan gymuned ymchwil y Brifysgol.

Yn unol â gofynion cyllidwyr ymchwil (gweler Atodiad 1), mae'r gadwrfa'n caniatáu i gynhyrchion ymchwil allu cael eu darganfod gan unrhyw un sydd â chysylltiad â'r rhyngwyd, a pheiriannau chwilio. Yn yr un modd bydd unrhyw un â mynediad i'r rhyngwyd yn gallu chwilio'n electronig o fewn y testun, ei ddarllen a'i lawrlwytho am ddim. Yn ogystal mae gan y gadwrfa'r cyfleuster i gydnabod a gweithredu ar unrhyw gyfyngiadau embargo a hawlfraint a roddir ar y cynnyrch gan y cyhoeddwr. Gellir dod o hyd i lifau gwaith ar gyfer adneuo cynhyrchion yn y gadwrfa ar dudalen gartref y gadwrfa.

Gydag ychydig eithriadau'n unig, mae'r prif gyllidwyr ymchwil cyhoeddus yn mynnu bod yr ymchwil a ariennir ganddynt hwy yn cael ei gyhoeddi ar sail mynediad agored. Nodir y gofynion hyn yn fanwl yn Atodiad 1. Er y bydd y Polisi hwn yn cael ei ddiweddarau i ymateb i ofynion cyllidwyr allanol a pholisïau sy'n esblygu, cyfrifoldeb deiliad y grant yw sicrhau bod unrhyw amodau mynediad agored a wneir gan y cyllidwr yn cael eu bodloni'n llawn pan gyllid yr ymchwil yn allanol. Bydd y Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch a'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yn gallu rhoi cyngor ar gydymffurfio.

Dylid sylwi'n arbennig ar y polisïau a fabwysiadwyd gan saith Cyngor Ymchwil y DU (a gynrychiolir gan RCUK) a chan bedwar Cyngor Cyllido y DU sy'n dyrannu cyllid ymchwil yn gysylltiedig ag ansawdd trwy'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF). Mae pob un yn mynnu bod papurau ymchwil a thrafodion cynadleddau cyhoeddedig sydd wedi'u hadolygu gan gymheiriaid yn cael eu cyhoeddi ar sail mynediad agored, naill ai'n rhad ac am ddim ar wefan y cyhoeddwr ei hun, neu fel y llawysgrif derfynol a dderbyniwyd mewn unrhyw gadwrfa, heb gyfyngiad ar aildefnydd anfasnachol ac o fewn cyfnod penodol. Mae Polisi'r

RCUK wedi bod mewn grym er Ebrill 2013, ac mae Polisi Cyngorau Cyllido'r DU yn berthnasol i bapurau ymchwil a thrafodion cynadleddau cyhoeddedig sydd wedi'u hadolygu gan gymheiriaid (gydag ISSN) o Ebrill 2016. Ni fydd papurau nad ydynt yn bodloni'r gofyn hwn yn gymwys i'w cyflwyno i'r REF ôl-2014. Mae'r RCUK ar hyn o bryd yn monitro cyfraddau cydymffurfio ac yn disgwyl i hyn gael ei fodloni'n llawn erbyn Ebrill 2018 pan ddaw'r cyfnod trosiannol i ben.

Dylid nodi bod y polisiau hyn yn cynrychioli'r symudiad cychwynnol at gyhoeddi mynediad agored a'i bod yn debygol y daw ffurfiau eraill o gyhoeddi ymchwil o fewn terfynau gwaith polisiau cyllido rywbryd yn y dyfodol. Yn wir, lle gall y Brifysgol ddangos ei bod wedi cymryd camau tuag at alluogi mynediad agored i gynhyrchion y tu allan i gwmpas y polisiau REF ac RCUK presennol, cydnabyddir hynny yn elfen amgylchedd ymchwil y REF ôl-2014.

Yn dilyn y datblygiadau hyn, mae'n ofynnol yn ôl y Polisi hwn bod yr holl gynhyrchion ymchwil a gynhyrchwyd gan staff sy'n gweithio i'r Brifysgol yn cael eu cyflwyno i Gadwrfa Mynediad Agored y Brifysgol. Yn hyn o beth, bydd dau fath o adneuo gwaith:

- **Math A** sy'n cwmpasu papurau ymchwil a gyhoeddir mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid a thrafodion cynadleddau cyhoeddedig ag ISSN;
- **Math B** yn cwmpasu'r holl gynhyrchion ymchwil arall a nodir yn Nhabl 1 drosodd.

Yn achos Math A, ni ddylai unrhyw gyfnod embargo a osodir fod yn hwy na'r uchafswm a nodir yn Adran 4 isod. Yn achos cynhyrchion Math B mae'n bosibl y bydd cyfyngiadau hawlfraint yn ei gwneud yn angenrheidiol bod embargos amhenodol yn cael eu gosod ar y gwaith. Yn hyn o beth, mae'r Brifysgol yn annog ymchwilwyr i lunio cytundebau trwyddedu mynediad agored gyda phob trydydd parti. Ceir eglurhad pellach o hyn isod.

Tabl 1:

<p>MATH A</p> <p>Gorfodol – gyda chyfnodau embargo cyfyngedig</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Papurau ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid a gyhoeddwyd mewn cylchgronau/cyfnodolion academiaidd • Trafodion cynadleddau cyhoeddedig gyda rhifau ISSN
<p>MATH B</p> <p>Gorfodol – gyda chyfnodau embargo a ddiffinnir gan y defnyddiwr</p>	<p>Yr holl gynhyrchion ymchwil eraill, yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Monograffau yn seiliedig ar ymchwil • Casgliadau ymchwil wedi'u golygu • Papurau cynadleddau cyhoeddedig (gydag ISBN) • Cyhoeddiadau ysgolheigaidd • Cyhoeddiadau beirniadol • Cyfieithiadau • Adroddiadau technegol • Papurau gwaith ac adroddiadau ymchwil • Adroddiadau data sylfaenol • Catalogau arddangosfeydd neu amgueddfeydd • Ysgrifennu creadigol a chyfansoddiadau • Adroddiadau ar guraduriaeth a chadwraeth • Cronfeydd Data • Cynrychioliadau o berfformiadau a mathau eraill o gyflwyniadau byw • Cynrychioliadau o arteffactau • Dyluniadau ac arddangosfeydd • Catalogau • Ffilmiau, fideos a mathau eraill o gyflwyniadau cyfryngau • Adroddiad ymgynghorol • Cynrychioliadau o arteffactau ffisegol megis adeiladau, dyfeisiau, delweddau, gosodiadau, deunyddiau, cynhyrchion a phrosesau, prototeipiau. • Arteffactau digidol megis setiau data, setiau data aml-ddefnydd, archifau, cyfryngau di-brint, cynnwys y we megis offer rhyngweithiol. • Deunyddiau newydd, dyfeisiau, cynnyrch a phrosesau • Dogfennau safonau

4. Polisi

Math A: Llwybrau Mynediad Agored ac Amodau (Gwyrdd ac Aur)

Mae'r Brifysgol wedi dewis y Llwybr Gwyrdd i Fynediad Agored trwy'r gadwfa sefydliadol fel ei Llwybr safonol ar gyfer rhannu ymchwil yn rhydd ac yn agored. Mewn achosion lle mae arian allanol wedi'i sicrhau i dalu'r Taliadau Prosesu Erthyglau (APC) gellir defnyddio'r Llwybr Aur. Nid yw'r Brifysgol ar hyn o bryd yn derbyn grant bloc yr RCUK i'r perwyl hwn ac ni all dalu'r taliadau APC o'i chronfeydd ei hun.

Mae'r symudiad at gyhoeddi mynediad agored yn cynyddu cyflymder y newid yn gysylltiedig â chyhoeddi digidol a dosbarthu yn seiliedig ar y rhyngrwyd, ac mae modelau busnes a threfniadau trwyddedu cyhoeddwr yn debygol o wynebu newid pellach yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Ar hyn o bryd mae dwy brif lwybr i Fynediad Agored:

Llwybr Gwyrdd¹. Ar ôl ei dderbyn i'w gyhoeddi yn y cylchgrawn neu drafodion y gynhadledd, rhaid i destun yr awdur sydd wedi'i dderbyn a'i adolygu'n derfynol gan gymheiriaid (a elwir hefyd yn 'llawysgrif awdur a dderbyniwyd' neu 'fersiwn terfynol yr awdur' neu 'ôl-argraffiad') gael ei adnau yng Nghadwfa Mynediad Agored y Brifysgol. Bydd hyn fel arfer yn amodol ar amodau'r cyhoeddwr a allai gynnwys cyfnod embargo a chyfyngu ar y defnydd o fersiwn cyhoeddiedig terfynol y cynnyrch (h.y. gyda dull fformatio, cysodi, tudalennu, ac ati, y cylchgrawn). Nid oes angen talu Tâl Prosesu Erthyglau (APC) ar gyfer hyn ac felly mae am ddim. Mae'n rhaid i'r cynnyrch fod wedi'i adnau cyn gynted â phosibl ar ôl ei dderbyn, a dim mwy na thri mis wedi'r dyddiad hwn fel y mae wedi'i nodi yn y llythyr derbyn neu'r e-bost gan y cyhoeddiad i'r awdur. Er mwyn cydymffurfio â'r Polisi hwn, bydd y cyfnodau embargo hwyaf canlynol yn berthnasol:

Naill ai:

- 12 mis ar gyfer prif baneli A a B y REF sy'n cynnwys pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (gweler Atodiad 2).
- 24 mis ar gyfer prif baneli C a D y REF sy'n cynnwys meysydd pwnc y Gwyddorau Cymdeithasol, y Celfyddydau a'r Dyniaethau (gweler Atodiad 2).

Neu, ar gyfer ymchwil a ariennir trwy unrhyw rai o saith cyngor ymchwil y DU:

- Bydd yr RCUK yn derbyn oedi o ddim mwy na 6 mis rhwng cyhoeddi ar-lein a darparu'r Llawysgrif derfynol a dderbyniwyd trwy Fynediad Agored.
- Yn achos papurau yn y celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol (a ariennir yn bennaf gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), bydd y cyfnod embargo hwyaf yn 12 mis.

¹ Y cyfeirir ato hefyd fel Llwybr 2 yn Nogfen y Cyngorau Cyllido *Policy for Open Access in the Post-2014 Research Excellence Framework*,
<http://www.uwtsd.ac.uk/about/strategies-and-policies/>

Mewn achosion lle gweithredir cyfnodau embargo, rhaid cyflwyno'r cynnyrch ymchwil i'r gadwrfa o fewn 3 mis fel y nodir uchod. Mewn achosion o'r fath bydd yn 'ddarganfyddadwy' a bydd metadata megis teitl, man a dyddiad cyhoeddi, awdur, crynodeb a chyfeirnodau ar gael i bawb. Fodd bynnag ni fydd y llawysgrif ei hun ar gael tan i'r embargo gael ei godi. Archwilir y cyfyngiadau trwyddedu a hawlfraint pan gyflwynir y gwaith i'r Gadwrfa Mynediad Agored, er fel y nodir yn Adran 7, gallai hyn fod yn ystyriaeth wrth ddewis ym mha gylchgrawn i'w gyhoeddi.

Llwybr Aur.² Gyda'r llwybr hwn, mae'r cylchgrawn, trwy ei wefan ei hun, yn darparu mynediad uniongyrchol ac anghyfyngedig at y fersiwn cyhoeddedig terfynol o'r papur, y dylid ei wneud ar gael gan ddefnyddio'r drwydded Creative Commons Attribution (CC BY). Yn ogystal mae'n caniatáu adneuo'r fersiwn cyhoeddedig terfynol ar unwaith mewn cadwrfeydd eraill heb gyfyngiad ar ei aildefnyddio. Bydd hyn yn amodol ar dalu Tâl Prosesu Erthyglau (APC). Os oes arian allanol ar gyfer taliadau APC wedi'i sicrhau, gellir defnyddio'r opsiwn hwn, er dylai fersiwn cyhoeddedig terfynol y cynnyrch gael ei roi hefyd yng Nghadwrfa Mynediad Agored y Brifysgol cyn gynted y bydd wedi'i gyhoeddi ar-lein gan y cyhoeddwr. Os oes budd uniongyrchol o wneud hynny, gellir adnau llawysgrif awdur a dderbyniwyd adeg ei derbyn, gyda llawysgrif derfynol y cyhoeddwr yn cymryd ei lle unwaith y bydd wedi'i chyhoeddi.

Math B: Hawlfraint a Thrwyddedu

Monograffau a chasgliadau golygedig. Cydnabyddir yn achos monograffau neu benodau llyfrau nad yw'n bosibl, efallai, am resymau contractiol i wneud y testun llawn ar gael drwy fynediad agored. Yn yr achos hwn, anogir awduron sydd â fersiwn electronig o'u gwaith i'w lanlwytho i'r Gadwrfa Mynediad Agored i ddibenion cadw. Os oes angen, gellir gosod cyfnod embargo amhenodol. Os na osodir embargo, bydd y testun llawn ar gael wrth gyflwyno. Mae nifer o gyhoeddwr yn adolygu eu contractau i gymryd i ystyriaeth y twf o ran mynediad agored. Felly anogir awduron i drafod contractau cyhoeddi sy'n caniatáu i'w gwaith fod ar gael trwy'r gadwrfa sefydliadol (gyda chyfnod embargo priodol os oes angen). Mae hyn eisoes yn ofyniad i rai cyllidwyr ymchwil megis y Wellcome Trust a dylai awduron wirio telerau eu grant cyn llofnodi contractau gyda chyhoeddwr.

Cynhyrchion ymchwil eraill: Yn achos mathau eraill o gynhyrchion ymchwil, dylai awduron sicrhau nad oes unrhyw gytundeb hawlfraint nac Eiddo Deallusol wedi'i dorri wrth gyflwyno, a bod y trefniadau caniatâd angenrheidiol yn eu lle fel bod y testun llawn ar gael heb embargo. Ym mhob achos, bydd y Llyfrgell ac Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch yn gallu cynorthwyo.

Trwyddedu

Yn achos ymchwil a noddir yn allanol (megis yr RCUK, Wellcome Trust a'r UE) rhaid defnyddio trwydded Creative Commons Attribution (CC BY) ar gyfer ymchwil a gyhoeddir dan y Llwybr Aur. Mae'r drwydded hon yn caniatáu i eraill ddsbarth, ailgymysgu, addasu ac adeiladu ar waith ymchwilwyr, hyd yn oed yn fasnachol, ar yr amod eu bod yn cydnabod awduron am y gwaith gwreiddiol. Y drwydded hon yw'r un mwyaf hyblyg o'r trwyddedau sydd ar gael. Fe'i hargymhellir er mwyn lledaenu a defnyddio deunyddiau trwyddedig i'r eithaf. Yn achos ymchwil a gyhoeddir dan y Llwybr gwyrdd, sef yr arfer arferol yn y Brifysgol, dylid

² Y cyfeirir ato hefyd fel Llwybr 1 yn Nogfen y Cynghorau Cyllido *Policy for Open Access in the Post-2014 Research Excellence Framework*.

<http://www.uwtsd.ac.uk/about/strategies-and-policies/>

gwneud cais am drwydded CC BY fel mater o ffafriaeth, er y gellir bodloni'r gofyn mynediad agored trwy ddefnyddio trwydded Creative Commons Attribution-Non-Commercial (CC BY-NC) o leiaf. Gall trwyddedau penodol i gyhoeddwr hefyd fod yn dderbyniol ar yr amod eu bod yn cefnogi amcanion y Polisi, ac yn caniatáu ail-ddefnydd yn cynnwys testun anfasnachol a chloddio data.

Yn achos ymchwil nas ariennir yn allanol dylid defnyddio trwydded Creative Commons Attribution Non-Commercial Non-Derivative (CC BY-NC-ND) o leiaf. Y drwydded hon yw'r mwyaf cyfyngol o'r chwe phrif drwydded, gan ganiatáu i eraill lawrlwytho gwaith ymchwilwr yn unig a'i rannu ag eraill ar yr amod eu bod yn eu cydnabod, ond ni allant ei newid mewn unrhyw ffordd na'i ddefnyddio'n fasnachol. Os oes angen i unrhyw ymchwilydd gael trwydded heblaw CC BY-NC-ND, rhaid gwneud hyn yn hysbys wrth gyflwyno i'r Gadwrfa. Mae'r ystyriaethau hyn hefyd yn syrthio o fewn terfynau gwaith Polisi Eiddo Deallusol y Brifysgol ac fe'u hystyrir fesul achos gan y Pwyllgor Eiddo Deallusol os cyfyd yr angen.

Ym mhob achos, dylai staff ymchwil ymgynghori â'r Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch ynghylch trafod Hawliau Eiddo Deallusol gyda chyhoeddwr (yn cynnwys hawlfraint, trwyddedu, cyfnodau embargo) er mwyn sicrhau telerau contractiol sy'n bodloni telerau'r Polisi hwn, ac unrhyw bolisi arall a ddylai fod yn berthnasol, megis Polisi Eiddo Deallusol y Brifysgol.

Aml-awduraeth

Yn achos aml-awduraeth bydd pob awdur yn cadw'r hawl i adnau'r cynnyrch mewn Cadwrfa Mynediad Agored sefydliadol. Ni lunnir unrhyw gytundeb sy'n cyfyngu ar yr hawl hon. Os yw aml-awduron wedi'u cyflogi yn y Brifysgol, adneuir un copi, gyda'r crewyr yn cael eu hadnabod yn y metadata priodol.

Symudiad staff rhwng sefydliadau AU.

Pan fydd ymchwilwr newydd yn cychwyn swydd gyda'r Brifysgol, mae'n rhaid iddynt, o fewn mis, adnau'r holl gynhyrchion cyhoeddedig blaenorol sy'n dod o dan y gofynion gorfodol, yng Nghadwrfa Mynediad Agored y Brifysgol. Mewn achosion lle mae'r ymchwilydd newydd yn symud o sefydliad AU arall ni ddylai fod unrhyw amharu ar natur ddarganfyddadwy y cynhyrchion na mynediad iddynt yn ystod y trosglwyddo. Os bydd ymchwilydd yn gadael y Brifysgol dylid rhoi rhybudd i dynnu ymaith unrhyw gynnyrch ymchwil sydd wedi'i adneuo. Mae hyn yn unol â Pholisi Eiddo Deallusol y Brifysgol, sy'n neilltuo hawliau Eiddo Deallusol i ymchwil i'r sawl a'i creodd. Fodd bynnag mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gadw'r ymchwil a adnewyd yn y Gadwrfa os yw'n dymuno hynny. Mewn achosion o'r fath bydd y metadata ar gyfer pob cynnyrch a gadwyd yn nodi'r cyfnod yr oedd y crëwr yn gyflogedig yn y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall y defnydd o ddynodyddion ymchwil unigryw hwyluso'r broses hon ac mae'n annog yr holl staff ymchwil i gofrestru am rif adnabod Open Researcher and Contributor ID (ORCID).

5. Monitro

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod o'r pwys mwyaf bod ei hymchwilyddwr yn cael y rhyddid i gyhoeddi yn y cyhoeddiad mwyaf priodol. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso'r rhyddid hwn â gofynion polisiau cyllido ymchwil allanol.

Mewn achosion lle mae noddwyr ymchwil allanol yn gosod gofynion penodol i gyhoeddi trwy fynediad agored, mae'r Polisi hwn yn gorchymyn ei bod yn rhaid cydymffurfio â hyn yn llawn. Yn yr achosion hyn, cyfrifoldeb y deiliad/deiliaid grant yw sicrhau bod y cyhoeddiad a ddewisir yn cefnogi'r Llwybr Gwyrdd. Bydd y Llyfrgell ac Adnoddau Dynol yn gallu cynnig

cymorth i archwilio trefniadau trwyddedu tra bydd yr offeryn SHERPA FACT yn caniatáu i ymchwilwyr wirio a yw'r cylchgronau y maent yn dymuno cyhoeddi eu canlyniadau ynddynt yn cydymffurfio â gofynion eu cyllidwr o ran mynediad agored.

Mewn achosion lle nad yw'r ymchwil wedi'i ariannu'n allanol, mae'r Polisi hwn hefyd yn gorchymyn ei bod yn rhaid i gynhyrchion Math A (papurau ymchwil a thrafodion cynadleddau) gael eu cyhoeddi ar sail mynediad agored, a bod y Brifysgol yn disgwyl i hyn fod yn ystyriaeth wrth ddewis ym mha gylchgronau a chyda pha gyhoeddwy'r cyhoeddir canlyniadau. Os yw'r cyhoeddiad dan sylw'n gwahardd adneuo mynediad agored mewn cadwrfa, ond ystyrir mai dyna yw'r dull cyhoeddi mwyaf priodol i'r cynnyrch, dylai'r ymchwilydd ymgynghori â Phwyllgor Ymchwil y Brifysgol a gofyn am ganiatâd i gyhoeddi heb fynediad agored. Rhaid dilyn yr un broses os yw'r cyhoeddiad dan sylw'n gofyn am gyfnod embargo hwy na'r uchafswm a nodir a dyna sydd fwyaf priodol i'r cynnyrch, neu os yw'r cynnyrch yn dibynnu ar gynnwys trydydd parti na ellid caniatáu hawliau mynediad agored iddynt. Bydd methu â gwneud hynny'n cyfyngu ar y Brifysgol o ran cael cwrmpas llawn ei hymchwil ar gael i'w ystyried a'i gyflwyno i'r REF nesaf.

Monitrir gweithrediad y Polisi gan y Grŵp Llywio Mynediad Agored. Bydd aelodaeth y Grŵp yn cynnwys un cynrychiolydd o bob un o'r canlynol: Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch (Cadeirydd); y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu, Technoleg a Systemau Gwybodaeth a dau gynrychiolydd Cyfadran. Bydd y Grŵp Llywio Mynediad Agored yn adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil.

Proses

Cyhoeddir llifau gwaith ar gyfer adneuo cynhyrchion ar dudalen gartref Cadwrfa'r Brifysgol.

Polisi Tynnu Ymaith

Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech rhesymol i sicrhau bod yr holl gynnyrch a gyhoeddir yn y Gadwrfa Fynediad Agored yn cydymffurfio â chyfraith y DU. Fodd bynnag, pe bai unrhyw gyflogai, myfyriwr neu drydydd parti'n teimlo bod cynnwys penodol yn torri cyfraith y DU neu hawliau'r Brifysgol mewn rhyw ffordd, bydd, drwy hysbysiad, yn adolygu statws cyfreithiol y deunydd perthnasol ac yn ei dynnu ymaith os gwelir bod y gŵyn yn ddilys. Dyma rai rhesymau dilys dros dynnu cynnwys o'r gadwrfa:

- Torri hawliau eiddo deallusol, yn cynnwys hawlfraint;
- Torri hawliau moesol neu hawliau eraill a ddiogelir gan y gyfraith (er enghraifft, trin gwaith yn ddirmygus, enllib, diogelu data, preifatrwydd);
- Materion moesegol yn cynnwys llên-ladrad, ymchwil ffug, a'r methiant i gadw at ganllawiau moesegol;
- Materion diogelwch cenedlaethol.

I gofrestru cwyn, dylai'r achwynydd gysylltu â Chadeirydd y Grŵp Llywio Mynediad Agored gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost researchdata@uwtsd.ac.uk. Dylid cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Manylion cysylltu:
- Manylion yr eitem (teitl, awdur, URL, ac ati);

- Disgrifiad o'r rhesymau am y gŵyn yn cynnwys unrhyw dystiolaeth neu brawf.

Ar ôl i'r gŵyn ddod i law, bydd y Rheolwr Mynediad Agored yn:

- Cydnabod bod y gŵyn wedi dod i law;
- Gwneud asesiad cychwynnol o ddilysrwydd y gŵyn;
- Tynnu'r eitem ymaith o olwg y cyhoedd dros dro os oes angen ymchwilio ymhellach.

Yn dilyn yr asesiad cychwynnol, os bernir bod cwyn yn annilys, ni chymerir camau pellach a hysbysir yr achwynydd o'r penderfyniad hwn. Caiff cwynion dilys eu hymchwilio gan Gadeirydd y Grŵp Llywio Mynediad Agored, awdur yr eitem dan sylw ac, os oes angen Uned Gwasanaethau Corfforaethol y Brifysgol. Gwneir pob ymdrech i ddatrys y mater yn gyflym ac wrth fodd yr achwynydd a'r awdur fel ei gilydd.

O ganlyniad i ymchwiliad, os bernir bod yr eitem dan sylw wedi torri agwedd ar gyfraith y DU, caiff ei thynnu ymaith yn barhaol o'r Gadwrfa. Bydd cofnod metadata hanesyddol o'r eitem a dynnwyd ymaith ynghyd â nodyn yn manylu'r rhesymau am ei thynnu ymaith yn parhau yn y Gadwrfa ond ni fydd i'w gweld gan y cyhoedd.

6. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill:

Polisi Datgelu Gwybodaeth

Polisi Rheoli Data Ymchwil*

Polisi Eiddo Deallusol*

Cod Ymarfer Moseg ac Integredd Ymchwil

Polisi Diogelu Data*

Polisi Rheoli Cofnodion*

Polisi Defnydd Derbyniol

Mae'r polisïau hyn i'w gweld naill ai ar [wefan YDDS](#) neu ar safle MyDay (sylwer y gallai rhai o'r polisïau hyn fod yn cael eu drafftio ar hyn o bryd).

7. Goblygiadau o ran Adnoddau

Goblygiad	Manylion
Cyllid	Mae costau blynyddol o £4374.13 ar gyfer cynnal Cadwrfa EPrints wedi cael eu cyllido oddi mewn i gyllideb Technoleg a Systemau Gwybodaeth.
Staff	Gellir gweithredu'r Polisi gan y staff cyfredol.
Asedau	Cynhelir Cadwrfa EPrints yn allanol ac nid oes angen unrhyw asedau ychwanegol.
Partneriaid	Mae'r Polisi yn ofyniad ar gyfer cyflwyno i ymarferiadau REF yn y dyfodol ac yn ddisgwyliad ar gyfer cael mynediad at grantiau ymchwil yr RCUK, yr UE a grantiau ymchwil elusenol. Bydd y Polisi'n ysgogi mynediad at gynnyrch ymchwil y Brifysgol ac effeithiau hynny.
Graddfeydd Amser	Dylid gweithredu'r Polisi erbyn Ebrill 2016. Dylai lansiad y Gadwrfa Mynediad Agored ac eiriolaeth a hyfforddiant staff gychwyn yn Ionawr 2016.
Arweinyddiaeth	Yr Athro Mike Phillips

8. Asesiad Effaith

Goblygiad	A ystyriwyd effaith (Do/Naddo)	Effaith a Ddynodwyd
Cyfreithiol	Do	Ymhlith y ddeddfwriaeth Sylfaenol y mae'r Polisi'n ymwneud ag ef mae'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> - Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; - Y Ddeddf Diogelu Data 1998; Mae gan y Polisi ddarpariaeth hefyd yn ymwneud â hawliau eiddo deallusol (yn cynnwys hawlfraint, cyfrinachau masnach a hawliau cronfeydd data).
Cyfraniad at y Cynllun Strategol	Do	Mae'r polisi'n cyfrannu at Strategaeth Ymchwil y Brifysgol. Ei effaith yw sicrhau bod ein gweithgarwch a'n deilliannau ymchwil yn dylanwadu ar sylfaen dystiolaeth polisiâu a ddatblygir yng Nghymru a thu hwnt. Bydd y polisi'n cyfrannu at amgylchedd ymchwil y Brifysgol a'i gallu i greu incwm ymchwil.
Dadansoddiad Risg	Do	Mae Cyhoeddi Mynediad Agored yn ddisgwyliad ar gyfer cynnal amgylchedd ymchwil o safon fyd-eang, er mwyn cael mynediad at arian ymchwil a chynnal enw da'r Brifysgol ym maes ymchwil. Mae'r Polisi'n lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â cholli incwm ac enw da o ran ymchwil. Mae cynnal y gadwrfa'n allanol yn trosglwyddo risgiau isadeiledd sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r gadwrfa i drydydd parti.
Cydraddoldeb	Do	Bydd darparu hyfforddiant a chyfathrebu yn gysylltiedig â'r polisi hwn yn cymryd i ystyriaeth y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.
Y Gymraeg	Do	Wedi iddo gael ei gymeradwyo bydd y Polisi ar gael yn ddwyieithog. Cynhelir y Gadwrfa Mynediad Agored yn ddwyieithog.
Amgylcheddol a Chynaliadwyedd	Do	Trwy weithredu'r Polisi'n llwyddiannus caniateir i ddefnyddwyr gael mynediad at gyhoeddiadau ymchwil yn electronig ac yn rhad ac am ddim fel dull amgen i ddulliau llai cynaliadwy. Mae'r Polisi'n cydnabod bod data ymchwil a ariennir yn gyhoeddus yn eiddo i'r cyhoedd, ac wedi'u llunio er budd y cyhoedd a bod mynediad cyhoeddus atynt yn dileu'r gwaith dyblygu costus sy'n gysylltiedig â chreu gwybodaeth newydd.
Cyfathrebu/ y Cyfryngau/ Marchnata	Do	Bydd Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch a'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yn hyrwyddo ymwybyddiaeth fewnol o'r polisi a'i weithrediad trwy ddigwyddiadau datblygu staff, adnoddau ar y we a dulliau eraill o eiriolaeth. Bydd hyn yn sicrhau ymwybyddiaeth fewnol o gynhyrchion ymchwil, a bod gan ymchwilwyr a myfyrwyr ymchwil ymwybyddiaeth gyffredinol o'r amgylchedd rheoleiddio. Bydd y Gadwrfa Mynediad Agored yn cael ei hyrwyddo i gynulleidfa allanol trwy Gyfathrebu Corfforaethol.

Awdur(on) y polisi:

Dr. Matt Briggs - Swyddog Gweithredol Datblygu Ymchwil

9. Rheoli fersiynau'r ddogfen

Rhif Fersiwn:	y	Rheswm am newid:	Awdur:	Dyddiad newid:
0.1		Cymeradwywyd y Polisi Drafft gan y Pwyllgor Ymchwil	MB	
0.2		Gwnaed cywiriadau yn sgil prawfddarllen cyn cyflwyno i'r UDRh	CG	21.10.15

Statws presennol y Polisi: Cymeradwywyd

Polisi'n berthnasol i'r: Grŵp Sector Deuol (h.y. Y Drindod Dewi Sant AB ac AU)

Dyddiad cadarnhau: 27/01/2016

Dyddiad yn effeithiol o: 27/01/2016

Dyddiad adolygu'r polisi: 27/01/2017

I'w gyhoeddi: ar wefan YDDS

Atodiad 1 Gofynion polisi cyrff cyllido

Cynghorau Cyllido'r DU	
Polisi	<p>Ym mis Mawrth 2014 mabwysiadodd y pedwar Cyngor Cyllido yn y DU y <i>Policy for Open Access in the Post-2014 Research Excellence Framework</i>. Mae'r polisi'n datgan ei bod yn rhaid i rai cynhyrchion fod ar gael ar ffurf mynediad agored o Ebrill 2016 i fod yn gymwys i'w cyflwyno i'r REF nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Erthyglau mewn cylchgronau • Trafodion cynadleddau gydag ISSN
Gofynion adneuo	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i gynnyrch gael ei adneuo mewn cadwrfa sefydliadol neu bwnc o fewn tri mis i'w dderbyn i'w gyhoeddi. • Rhaid i gynnyrch gael ei adneuo ar ffurf testun terfynol wedi'i adolygu gan gymheiriaid (o leiaf).
Gofynion darganfod	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r cynnyrch fod yn ddarganfyddadwy i unrhyw un â chysylltiad â'r rhyngwyd, a pheiriannau chwilio.
Gofynion mynediad	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r cynnyrch ganiatáu i unrhyw un â mynediad i'r rhyngwyd allu chwilio'n electronig o fewn y testun, ei ddarllen a'i lawrlwytho am ddim. • Rhaid cyflawni'r gofynion mynediad cyn gynted y daw unrhyw gyfnod embargo i ben. • Ni ddylai cyfnodau embargo fod yn hwy na 12 mis ar gyfer prif baneli A a B y REF a 24 mis ar gyfer prif baneli C a D y REF.
Eithriadau o ran mynediad (eto i gyd, rhaid i'r cynhyrchion hyn gael eu hadneuo):	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cynnyrch yn dibynnu ar gynnwys trydydd parti na ellid caniatáu hawliau mynediad agored iddynt. • Mae'r cyhoeddiad dan sylw'n gofyn am gyfnod embargo hwy na'r uchafswm a nodir, a dyna oedd fwyaf priodol i'r cynnyrch. • Mae'r cyhoeddiad dan sylw'n gwahardd adneuo mynediad agored, a dyna oedd fwyaf priodol i'r cynnyrch.

RCUK	<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) • Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) • Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) • Cyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) • Cyngor Ymchwil Meddygol (MRC) • Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) • Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg (STFC)
Polisi	<p>Bydd Polisi'r RCUK ar Fynediad Agored yn berthnasol i'r holl gyhoeddiadau cymwys a gyflwynir i'w cyhoeddi o 1 Ebrill 2013. Mae'n datgan ei bod yn rhaid i bapurau ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid sy'n deillio o ymchwil a ariennir yn llwyr neu'n rhannol gan Gynghorau Ymchwil:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gael eu cyhoeddi mewn cyfnodolion sy'n cydymffurfio â Pholisi'r Cyngor Ymchwil ar Fynediad Agored, a: • chynnwys manylion am yr arian a gefnogodd yr ymchwil, a datganiad ynglŷn â sut y gellir cael mynediad at y deunyddiau ymchwil sylfaenol, megis data, samplau neu fodelau.
Gofynion adneuo	<p>Mae'r RCUK yn cydnabod bod cylchgrawn yn cydymffurfio â'r polisi hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Os yw'r cylchgrawn, trwy ei wefan ei hun, yn darparu mynediad uniongyrchol ac anghyfyngedig at fersiwn cyhoeddedig terfynol y papur, y dylid ei wneud ar gael gan ddefnyddio'r drwydded Creative Commons Attribution (CC BY). Yn ogystal, mae'n caniatáu adneuo'r fersiwn cyhoeddedig terfynol ar unwaith mewn cadwrfeydd eraill heb gyfyngiad ar ei aildefnyddio. Gallai hyn olygu talu 'Tâl Prosesu Erthyglau' (APC) i'r cyhoeddwr. <p>Neu,</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cylchgrawn yn cydsynio i adneuo'r Llawysgrif derfynol a dderbyniwyd mewn unrhyw gadwrfa, heb gyfyngiad ar aildefnyddio anfasnachol ac o fewn cyfnod diffiniedig. Ni fydd APC yn daladwy i'r cyhoeddwr. <p>Yn yr achos olaf hwn, mewn disgyblaethau STEM, bydd yr RCUK yn derbyn oedi o ddim mwy na 6 mis rhwng cyhoeddi ar-lein a darparu'r Llawysgrif derfynol a dderbyniwyd trwy Fynediad Agored. Yn achos papurau yn y celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol (a ariennir yn bennaf gan yr AHRC a'r ESRC), bydd y cyfnod embargo hwyaf yn ddeuddeg mis. Os na fydd arian ar gyfer taliadau APC ar gael i awdur yn ystod y cyfnod trosiannol tan Ebrill 2018, caniateir cyfnodau embargo hwy.</p>

Horizon (2020)	
Polisi	<p>Mae'n ofynnol i'r holl fuddiolwyr adneuo a sicrhau mynediad agored.</p> <p>Mae mynediad agored at gyhoeddiadau gwyddonol a adolygwyd gan gymheiriaid wedi'i sefydlu yn egwyddor sylfaenol ar gyfer Horizon 2020 ac mae hyn yn cael ei egluro yn y Rheoliadau a'r Rheolau Cyfranogi yn ogystal â thrwy'r darpariaethau perthnasol yn y cytundeb grant (gweler Erthygl 29 "Dissemination of results - Open Access - Visibility of EU funding": tud. 60-63 y "Multi-beneficiary General Model Grant Agreement, Version 1.0," Rhagfyr 11, 2013).</p>
Beth i'w adneuo	<p>Copi electronig ar ffurf y gall peiriant ei ddarllen o fersiwn cyhoeddiedig terfynol y cyhoeddwr o'r papur, yn cynnwys yr holl addasiadau o'r broses adolygu gan gymheiriaid, golygu copi a golygu arddull, a newidiadau o ran fformatio (fel arfer dogfen PDF).</p> <p>NEU</p> <p>Lawysgrif derfynol a adolygwyd gan gymheiriaid a dderbyniwyd i'w chyhoeddi - llawysgrif derfynol papur a adolygwyd gan gymheiriaid a dderbyniwyd i'w gyhoeddi mewn cylchgrawn, yn cynnwys yr holl addasiadau o'r broses adolygu gan gymheiriaid, ond heb ei fformatio eto gan y cyhoeddwr (y cyfeirir ato hefyd fel yr "ôl-argraffiad").</p>
Ble i'w adneuo	<p>Dylai ymchwilwyr adneuo mewn cadwrfa ar gyfer cyhoeddiadau gwyddonol (archifau ar-lein) o'u dewis. Naill ai:</p> <p>Cadwrfa sefydliadol y sefydliad ymchwil y maent yn gysylltiedig â hi.</p> <p>NEU</p> <p>Cadwrfa thematig/yn seiliedig ar bwnc.</p> <p>NEU</p> <p>Cadwrfa ganolog, e.e. Zenodo a sefydlwyd gan y prosiect OpenAIRE.</p>
Pryd i'w adneuo	<p>Rhaid i bob buddiolwr adneuo cyn gynted ag y bo modd ac adeg cyhoeddi fan bellaf.</p>
Pryd dylid darparu Mynediad Agored	<p>Rhaid i bob buddiolwr sicrhau mynediad agored i'r cyhoeddiad a adneuwyd – trwy'r gadwrfa – ar yr adegau canlynol fan bellaf: (i) adeg cyhoeddi, os oes fersiwn electronig ar gael yn rhad ac am ddim trwy'r cyhoeddwr, neu (ii) o fewn chwe mis i'w gyhoeddi (deuddeg mis ar gyfer cyhoeddiadau yn y gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau) mewn unrhyw achos arall.</p> <p>Ar gyfer cyhoeddi mynediad agored, gall ymchwilwyr gyhoeddi mewn cylchgronau mynediad agored, neu mewn cylchgronau sy'n gwerthu tanysgrifiadau ac sydd hefyd yn cynnig y posibilrwydd o wneud erthyglau unigol ar gael yn agored (cylchgronau hybrid). Mewn achosion o'r fath, mae'r Taliadau Prosesu Erthyglau (APC) sydd i'w talu gan awduron yn gymwys i'w had-dalu yn ystod cyfnod y gweithredu. Yn achos taliadau</p>

	<p>APC sydd i'w talu ar ddiwedd eu cytundeb grant, bydd system ar gyfer talu rhai o'r costau hyn yn cael ei threialu. Yn achos cyhoeddi mynediad agored rhaid caniatáu mynediad agored adeg cyhoeddi fan bellaf.</p> <p>Rhaid i fuddiolwyr hefyd sicrhau mynediad agored i'r metadata llyfryddiaethol sy'n dynodi'r cyhoeddiad a adnewwyd. Rhaid i'r metadata llyfryddiaethol fod ar ffurf fformat safonol ac yn cynnwys pob un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• y termau ["Undeb Ewropeaidd (UE)" a "Horizon 2020"] ["Euratom" a rhaglen ymchwil a hyfforddiant Euratom 2014-2018"];• enw'r weithred, acronym a rhif y grant;• y dyddiad cyhoeddi, a hyd y cyfnod embargo os yw'n berthnasol;• dynodydd parhaus.
Rhagor o wybodaeth	<ul style="list-style-type: none">• Gellir gweld rhagor o wybodaeth a diweddariadau trwy OpenAire ar yr URL canlynol: <p>https://www.openaire.eu/open-access-overview/open-access-info/overview-of-open-access</p>

Afodiad 2. Paneli REF 2014

Prif banel	Uned asesu	
A	1	Meddygaeth Glinigol
	2	Iechyd Cyhoeddus, Gwasanaethau Iechyd a Gofal Sylfaenol
	3	Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Deintyddiaeth, Nyrsio a Fferylliaeth
	4	Seicoleg, Seiciatreg a'r Niwrowyddorau
	5	Y Gwyddorau Biolegol
	6	Amaethyddiaeth, Milfeddygaeth a Gwyddor Bwyd
B	7	Systemau'r Ddaear a Gwyddorau Amgylcheddol
	8	Cemeg
	9	Ffiseg
	10	Y Gwyddorau Mathemategol
	11	Cyfrifiadureg a Gwybodeg
	12	Peirianeg Awyrenegol, Mecanyddol, Cemegol a Gweithgynhyrchu
	13	Peirianeg Drydanol ac Electronig, Meteleg a Deunyddiau
	14	Peirianeg Sifil ac Adeiladu
C	15	Peirianeg Gyffredinol
	16	Pensaernïaeth, yr Amgylchedd Adeiledig a Chynllunio
	17	Daearyddiaeth, Astudiaethau Amgylcheddol ac Archaeoleg
	18	Economeg ac Econometreg
	19	Astudiaethau Busnes a Rheolaeth
	20	Y Gyfraith
	21	Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Rhyngwladol
	22	Gwaith Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol
	23	Cymdeithaseg
	24	Anthropoleg ac Astudiaethau Datblygu
	25	Addysg
	26	Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Hamdden a Thwristiaeth
D	27	Astudiaethau Ardal
	28	Ieithoedd Modern ac Ieithyddiaeth
	29	Iaith a Llenyddiaeth Saesneg
	30	Hanes
	31	Y Clasuron
	32	Athroniaeth
	33	Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol
	34	Celf a Dylunio: Hanes, Ymarfer a Theori
	35	Cerddoriaeth, Drama, Dawns a'r Celfyddydau Perfformio
	36	Cyfathrebu, Astudiaethau Diwylliannol a'r Cyfryngau, Rheolaeth Llyfrgell a Gwybodaeth

